CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES WELSH FOR ADULTS CENTRE

PANEL DARPARWYR GOGLEDD CYMRU

Cynhaliwyd cyfarfod o Banel y Darparwyr ddydd Mercher, Hydref 15 am 1.30yp yn Ystafell Rhos, Coleg Llandrillo Cymru.

Presennol: Elwyn Hughes (Cadeirydd, Prifysgol Bangor); Jane Watkins (Coleg Llysfasi); Gary Smith (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Haydn Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Ellen Roberts (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Pam Evans-Hughes (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Caroline Williams (Coleg Meirion Dwyfor); Howard Edwards (Popeth Cymraeg); Frances Jones (Popeth Cymraeg); Llinos Hicks (Coleg Harlech CAG); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); Catrin Keller (Coleg Llandrillo Cymru); Barbara Crawford (Coleg Llysfasi); Dona Padan (Coleg Llysfasi); Kevern Kerswell (Coleg Iâl); Dr Luned Ainslie (Coleg Iâl); David O. Jones (Prifysgol Glyndŵr); Siwan Hywel (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Iwan Davies (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: Dafydd Rhys (Coleg Harlech CAG); David Hedley Williams (Nant Gwrtheyrn); Ifan Prys (Nant Gwrtheyrn); Myfi Brier (Coleg Llysfasi); Jina Gwyrfai (Canolfan Cymraeg i Oedolion); Ann Rhian Hughes (Coleg Menai); Liz Williams (Coleg Glannau Dyfrdwy); Non Lewis Edwards (Coleg Glannau Dyfrdwy); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg)

Gweithredu

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2. CYFLWYNIAD MEIC RAYMANT HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Cafwyd cyflwyniad hynod ddiddorol ac afieithus gan Meic Raymant, Heddlu Gogledd Cymru ar y drefn a oedd mewn lle efo hyfforddi dysgwyr Cymraeg. Bellach mae'n rhaid i staff newydd fod â sgiliau iaith Gymraeg ar lefel 2 cyn cael eu penodi ac erbyn diwedd eu cyfnod prawf dangos sgiliau llafar ar lefel 3. Yn sicr mae hyn yn arfer da y dylai bob cyflogwr ei fabwysiadau.

3. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD 14 MAI 2008

Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd 14 Mai 2008 yn gywir.

4. MATERION YN CODI

Llwybrau Achredu – Nodwyd nad oes unrhyw ddarparwr yn treialu llwybr achredu newydd CBAC ar hyn o bryd.

5. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

Cafwyd adroddiad gan IG yn egluro:

Cynllunio Darpariaeth
Bydd y Swyddogion Datblygu yn ymweld â'r darparwyr er mwyn cynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer 2009/10.

Meini Prawf Cyllido
Mae meini prawf cyllido wedi cael eu cylchredeg at benaethiaid darparwyr, bydd y cyllido ar sail trafodaethau ar agweddau penodol.

Cyflwyno data am ddarpariaeth
Mae gweithdrefn wedi ei gyflwyno i benaethiaid darparwyr a dylai'r darparwyr ddilyn y weithdrefn.

Cronfa arian wrth gefn
Mae'r Ganolfan wedi derbyn cyllid gan APADGOS ar gyfer 2008/09, bydd yr arian yn cael ei neilltuo ar gyfer gofal plant mewn ardaloedd difreintiedig. ***Bydd y Ganolfan yn cylchredeg gwybodaeth bellach at y darparwyr cyn diwedd mis Hydref 2008.*** **IG**

Cronfa ar gyfer dysgwyr gydag anawsterau dysgu a/neu anableddau
Mae'r Ganolfan wedi derbyn gwybodaeth am gronfa sydd ar gael i ddarparwyr ar gyfer dysgwyr Cymraeg i Oedolion gydag anawsterau dysgu a/neu anableddau, mae hyn yn eu galluogi i'w cynorthwyo gyda chostau ychwanegol cysylltiedig. ***Gofynnwyd i bob darparwr gysylltu â'r Ganolfan ynghylch unrhyw achosion perthnasol erbyn dydd Mercher, 22ain Hydref 2008.*** **Darparwyr**

6. ADRODDIAD Y RHEOLWR DATA

Cafwyd adroddiad gan GS yn egluro:

Cynnydd hyd yma

Diolchwyd i'r darparwyr am eu cydweithrediad dros y flwyddyn ddiwethaf tuag at gyflwyniad data llwyddiannus.

Cyflwyno Data
Bydd archwilwyr o gwmni KPMG yn cynnal archwiliad data yn y Ganolfan yn yr ychydig ddyddiau nesaf, ni fyddwn yn rhagweld unrhyw broblem neilltuol efo'r archwiliad. Nid oedd cyflwyniad data olaf y flwyddyn yn llawer o broblem ond os bydd unrhyw ddarparwr yn rhagweld unrhyw anhawster yna dylent gysylltu efo GS cyn gynted â phosib.

Cyswllt
Nodwyd bod y ceisiadau am ddata yn cael eu hanfon ar ffurf e-bost at y canlynol ymhob darparwr:

- Pennaeth (neu bennaeth yr adran/ysgol/adain)
- Cyswllt MIS
- Cyswllt adrannol

Nid yw cyfeiriadau e-bost eraill i'w gweld, y prif reswm dros hyn yw y gall rhai pob bryderu bod eu manylion ar gael i lawer iawn o bobl. Bydd y Ganolfan yn gofyn am fwy o ddata gan ddarparwyr eleni, mae GS eisoes wedi cysylltu efo'r cyswllt MIS ymhob darparwr i egluro a bydd yn hapus i ddod allan i drafod unrhyw faterion data.

Materion y we
Mae adran darparwyr y wefan wedi cael ei datblygu'n helaeth dros y misoedd diwethaf lle gellir rheoli cyrsiau ar-lein. Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymweliadau â'r wefan gyhoeddus ers yr un cyfnod flwyddyn ddiwethaf.

7. ADRODDIAD Y SWYDDOGION DATBLYGU

Cafwyd adroddiad gan PEH yn egluro:

Darpariaeth prif-ffrwd
Bydd y swyddogion datblygu angen gwybodaeth gyfredol am gyrsiau ac ymrestriadau cyn gynted â phosib gan y darparwyr. Os bydd gan unrhyw ddarparwr anhawster cyrraedd eu targedu yna cysylltwch gyda'r swyddogion datblygu. Bydd rhaid i'r darparwyr gwblhau eu cynlluniau am ddarpariaeth 2009/10 yn fuan eleni a bydd rhaid cael llwybrau dilyniant a rhesymoli dosbarthiadau. **Darparwyr**

Cymraeg i'r Teulu
Mae cynnydd da wedi cael ei wneud yn y maes yma. Cyfarfu'r swyddogion datblygu efo dirprwyaeth o TWF yn ddiweddar i drafod y ffordd ymlaen a chytunwyd bydd angen i ddarparwyr gydweithio efo TWF i gynnal y cwrs

Cwrs Hwyl i'r Teulu
Bu'r ymgyrch yn llwyddiant gyda'r gobaith o ymestyn y prosiect i'r gorllewin. Mae'r swyddogion datblygu yn gwneud gwaith

ymchwil i waith cyfnod sylfaen a bellach mae cwrs wedi ei greu gan griw o athrawon bro. Mae JG yn peilota cwrs efo Canolfan Iaith Môn. Cyfarfu'r gweithgor Cenedlaethol yn ddiweddar ac mae datblygiadau ar y gweill.

Cymraeg yn y Gweithle

Cynnydd da yn y maes, mae'r Ganolfan wedi derbyn nifer o ymholiadau, ***bydd y Ganolfan angen rhestr o brisiau gan y darparwyr gan nodi unrhyw gostau ychwanegol***. Bydd holiadur yn cael ei ddosbarthu i bob gweithle cyhoeddus yn y rhanbarth fel cyflwyniad i gynllunio ieithyddol effeithiol. Mae aelodau'r Grŵp Strategol wedi mynegi eu gwrthwynebiad i fabwysiadau cyfundrefn dendro genedlaethol

Darparwyr

RhCA

Mae RhCA wedi cynhyrchu set o unedau ar gyfer y gweithle ac mae unedau newydd wedi eu cynhyrchu gan EH ar lefel Uwch/Hyfedredd.

Prosiect Oriel Ynys Môn

Y gobaith yw y bydd pecyn gwybodaeth wedi cael ei gynhyrchu erbyn Haf 2009. Bydd angen enw i'r prosiect, bydd y Ganolfan yn falch o dderbyn eich syniadau.

8. CYHOEDDUSRWYDD A MARCHNATA

Mynegodd IG bydd taflen wybodaeth marchnata yn cael ei gylchredeg at weithleoedd yr wythnos nesaf. Bu'r ymgyrch i ddenu tiwtoriaid newydd i'r maes yn lled lwyddiannus yn y rhanbarth er bod dal prinder tiwtoriaid mewn rhai ardaloedd. Os bydd gan ddarparwyr erthyglau sydd angen sylw penodol cofiwch am gylchgrawn Y Tiwtor. Bydd y Ganolfan yn codi ymwybyddiaeth ar orsaf radio Champion 103 trwy ddefnyddio ymadrodd y dydd ar thema benodol. Bu Siwan Hywel yn cynrychioli'r Ganolfan yn Yma i Chi yn Wrecsam, ymgyrch wedi ei threfnu gan y BBC a bu'r gweithgaredd yn weddol lwyddiannus. Os byddwch angen ffurflenni mentora Big Welsh Challenge yna cysylltwch â Siwan Hywel yn y Ganolfan.

9. ARHOLIADAU CBAC

Bu cynnydd yn niferoedd ymgeiswyr arholiadau 2007/08 ymhob adran.

Eleni bydd y darparwyr yn talu'r ffioedd arholiadau ar ran yr ymgeiswyr gan eu bod yn derbyn cyllid cyflawniad am ymgeiswyr llwyddiannus. Un anhawster sy'n codi o'r drefn hon ydy sut mae'r darparwr yn delio ag ymgeiswyr sy'n ymrestru ond sy ddim yn dod i'r arholiad ar y diwrnod: yn 2008, doedd 84 o'r dysgwyr oedd wedi ymrestru (ac wedi talu o'u pocedi eu hunain) ddim yn bresennol ar ddiwrnod yr arholiad.

Ni fydd y Ganolfan yn derbyn unrhyw ymrestriadau hwyr: mae hyn wedi cael ei gytuno efo CBAC. Y Ganolfan fydd yn gyfrifol

am ryddhau canlyniadau a'r darparwyr fydd yn gyfrifol am drefnu lleoliadau ar gyfer yr arholiadau.

10. HYFFORDDIANT

Cafwyd adroddiad gan HH yn egluro:

Hysbysebu am diwtoriaid
Cafwyd ymateb ffafriol i'r ymgyrch. Gofynnir i ddarparwyr wneud pob ymdrech i gynnig gwaith i'r tiwtoriaid sydd wedi derbyn yr hyfforddiant penodol.
Bydd y Ganolfan yn trefnu sesiynau hyfforddi ddechrau'r flwyddyn ac ysgolion haf ar gyfer darpar diwtoriaid.
Gofynnwyd am gymorth y darparwyr i leoli 5 o'r darpar diwtoriaid sydd angen gwneud ymarfer dysgu mewn dosbarthiadau dan oruchwyliaeth tiwtor profiadol.
Mae'r Ganolfan angen gwybodaeth gan y darparwyr pa hyfforddiant oedd y darparwyr wedi ei drefnu ar gyfer eu tiwtoriaid o 1af Medi 2008 hyd y Nadolig a sut y bydd darparwyr yn anwytho eu tiwtoriaid newydd. **Darparwyr**

11. MATERION I SYLW'R PANEL ADNODDAU CENEDLAETHOL

Bydd set o gardiau bach fflach CBAC 2 yn cael eu cynhyrchu yn fuan.
Os hoffai'r darparwyr ddatblygu unrhyw adnoddau mae croeso iddynt gyflwyno cais i'r Panel.

12. DIGWYDDIADAU

Bydd ysgolion undydd yn cael ei trefnu gan Brifysgol Bangor yng Nghaernarfon a'r Wyddgrug: ceir manylion pellach trwy gysylltu â Elwyn Hughes
Cynhadledd Cymraeg i Oedolion – 7fed-8fed Tachwedd 2008, Gwesty'r Holiday Inn, Casnewydd

13. U.F.A.
Ymrestriadau
Prifysgol Glyndŵr - y niferoedd yn debyg iawn i'r flwyddyn ddiwethaf, sy'n siomedig.
Coleg Iâl - 157 o ymrestriadau eleni , mae hyn yn gynnydd ar y flwyddyn ddiwethaf.
Coleg Llysfasi – Nifer dda wedi ymrestru ar gyrsiau Lefel 1.
Coleg Llandrillo Cymru – Y niferoedd yn iawn efo cyrsiau Mynediad 1, 2 a Sylfaen
Coleg Harlech CAG – Ymrestriadau siroedd Conwy a Dinbych i weld yn addawol.
Popeth Cymraeg - 160 wedi ymrestru ar gyrsiau yn Sir y Fflint.
Coleg Meirion Dwyfor – Cyrsiau Mynediad yn bur siomedig ond y

lefelau eraill yn iawn.
Prifysgol Bangor - Mae niferoedd y dechreuwyr i lawr tua thraean ond mae'r lefelau eraill yn weddol sefydlog.

14. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Pnawn Mercher, 14eg Ionawr 2009 am 1.30yp, Ystafell Madog, Coleg Llandrillo Cymru, Llandrillo yn Rhos.

WELSH FOR ADULTS CENTRE GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES WELSH FOR ADULTS CENTRE

NORTH WALES PROVIDER PANEL

A meeting of the Provider Panel was held on Wednesday, 15 October at 1.30 pm in Rhos room, Coleg Llandrillo Cymru.

Present: Elwyn Hughes (Chair, Bangor University); Jane Watkins (Coleg Llysfasi); Gary Smith (Welsh for Adults Centre); Haydn Hughes (Welsh for Adults Centre); Ellen Roberts (Welsh for Adults Centre); Pam Evans-Hughes (Welsh for Adults Centre); Caroline Williams (Coleg Meirion Dwyfor); Howard Edwards (Popeth Cymraeg); Frances Jones (Popeth Cymraeg); Llinos Hicks (Coleg Harlech WEA); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); Catrin Keller (Coleg Llandrillo Cymru); Barbara Crawford (Coleg Llysfasi); Dona Padan (Coleg Llysfasi); Kevern Kerswell (Yale College); Dr Luned Ainslie (Yale College); David O. Jones (Glyndŵr University); Siwan Hywel (Welsh for Adults Centre); Ifor Gruffydd (Welsh for Adults Centre); Iwan Davies (Secretary)

Apologies: Dafydd Rhys (Coleg Harlech WEA); David Hedley Williams (Nant Gwrtheyrn); Ifan Prys (Nant Gwrtheyrn); Myfi Brier (Coleg Llysfasi); Jina Gwyrfai (Welsh for Adults Centre); Ann Rhian Hughes (Coleg Menai); Liz Williams (Deeside College); Non Lewis Edwards (Deeside College); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg)

		Action
1.	**WELCOME AND APOLOGIES** The Chairman welcomed everyone to the meeting.	
2.	**PRESENTATION BY MEIC RAYMANT OF NORTH WALES POLICE** An extremely interesting and lively presentation was delivered by Meic Raymant, North Wales Police on the arrangements that were in place for training Welsh learners. New members of staff now need to have level 2 Welsh language skills before they are appointed and by the end of their probation period they need to demonstrate oral skills at level 3. This is certainly good practice and every employer should adopt it.	
3.	**CONFIRMATION OF THE MINUTES OF THE MEETING HELD ON 14 MAY 2008** The minutes of the meeting held on 14 May 2008 were confirmed as correct.	

4. MATTERS ARISING

Accreditation Routes – It was noted that no provider is trialling the WJEC accreditation route at present.

5. DIRECTOR'S REPORT

IG gave a report clarifying:

Provision Planning
The Development Officers will visit the providers in order to plan the provision for 2009/10.

Funding Criteria
The funding criteria have been circulated to provider heads; funding will be based on discussions of specific aspects.

Presentation of data concerning provision
A procedure has been introduced for provider heads and the providers should follow the procedure.

Reserve funding
The Centre has received funding from DCELLS for 2008/09; the funding will be assigned to childcare in deprived areas. ***The Centre will circulate further information to the providers before the end of October 2008.*** **IG**

Fund for learners with learning difficulties and/or disabilities
The Centre has received information about the fund that is available to providers for Welsh for Adult learners with learning difficulties and/or disabilities; this enables them to assist them with the additional costs involved. ***Each provider was asked to contact the Centre concerning any relevant cases by Wednesday, 22nd October 2008.*** **Providers**

6. DATA MANAGER'S REPORT

GS gave a report setting out:

Progress up to now
Providers were thanked for their co-operation over the last year toward successful data presentation.

Data Presentation
Inspectors from KPMG company will conduct a data audit at the Centre in the next few days; we do not foresee any particular problem with the audit. The presentation of the final data for the year was not much of a problem, but if any provider foresees any difficulty they should contact GS as soon as possible.

Contact
It was noted that applications for data were sent in the form of an e-mail to the following in every provider:

- Head (or head of department/school/section)
- MIS contact
- Departmental contact

Other e-mail addresses are not visible; the main reason for this is that some people may be concerned that their details are available to a large number of people. The Centre will request more data from providers this year; GS has already approached the MIS contact person in every provider to explain and he will be happy to come out to discuss any data issues.

Web Matters
The provider section of the website has been extensively developed over recent months so that courses can be managed on-line. There has been a significant increase in visits to the public website since the same period last year.

7. DEVELOPMENT OFFICERS' REPORT

A report was received from PEH explaining:

Mainstream Provision
The Development Officers will require up to date information about courses and enrolments as soon as possible from the providers. If any provider has difficulty reaching their targets, then contact the development officers. The providers will need to complete their plans for 2009/10 provision early this year and progression routes will need to be established and classes rationalised. **Providers**

Welsh for the Family
Good progress has been made in this area. The Development Officers met with a delegation from TWF recently to discuss the way forward and it was agreed that providers will need to work with TWF to run the course.

Fun for the Family course
The campaign was successful with the hope of extending the project to the west. The Development Officers are conducting research into foundation phase work and a course has now been produced by a group of area teachers. JG is piloting a course with the Anglesey Language Centre. The national working group met recently and developments are under way.

Welsh in the Workplace
There is good progress in this area; the Centre has received a number of enquiries, ***the Centre will require a list of prices from the providers, including any extra costs.*** A questionnaire will be distributed to every public workplace in the region as an introduction to effective language planning. The **Providers**

members of the Strategy Group have expressed their opposition to the adoption of a national tendering system.

OCN
OCN have produced a set of units for the workplace and new units have been produced by EH at Higher/Competence level.

Oriel Ynys Môn project
It is hoped that an information package will have been produced by the summer of 2009. The project will need a name; the Centre will be glad to receive your ideas.

8. PUBLICITY AND MARKETING

IG stated that a marketing information leaflet will be circulated to workplaces next week. The effort to attract new tutors to the field was fairly successful in the region although there is still a shortage of tutors in some areas. If providers have articles that require specific attention, remember the magazine, Y Tiwtor. The Centre will raise awareness on the Champion 103 radio station by using the phrase of the day on a specific theme. Siwan Hywel represented this Centre in 'Yma i Chi' in Wrexham, a campaign organised by the BBC and the activity was fairly successful. If you need Big Welsh Challenge mentoring forms then contact Siwan Hywel at the Centre.

9. WJEC EXAMINATIONS

There was an increase in the numbers of 2007/08 examination candidates in every section.
This year the providers will pay the examination fees on behalf of candidates as they receive completion funding for successful candidates. One difficulty that arises from this arrangement is how the provider deals with candidates who enrol but do not come to the examination on the day: in 2008, 84 learners who had enrolled (and had paid out of their own pockets) were not present on the day of the examination.
The centre will not accept any late enrolments: this has been agreed with the WJEC. The Centre will be responsible for releasing results and the providers will be responsible for arranging venues for the examinations.

10. TRAINING

A report was received from HH setting out:

Advertising for tutors
There was a favourable response to the campaign. Providers are asked to make every effort to offer work to tutors who have received the appropriate training.
The Centre will arrange training sessions at the beginning of the

year and summer schools for potential tutors.
The providers were asked for their assistance to place 5 of the potential tutors who need to do teacher training in classes under the supervision of experienced tutors.
The Centre needs information from the providers what training the providers had arranged for their tutors from 1st September 2008 until Christmas and how providers will arrange the induction of their new tutors. **Providers**

11. MATTERS FOR THE ATTENTION OF THE NATIONAL RESOURCES PANEL

A set of small WJEC 2 flash cards will be produced shortly.
If the providers would like to order any resources they are welcome to present a request to the Panel.

12. EVENTS

One-day courses will be arranged by Bangor University in Caernarfon and Mold; further details may be received by contacting Elwyn Hughes
Welsh for Adults Conference – 7th-8th November 2008, Holiday Inn Hotel, Newport

13. A.O.B.

Enrolments
Glyndŵr University- the numbers are very similar to last year, which is disappointing.
Yale Collegel - 157 enrolments this year; this is an increase on last year.
Coleg Llysfasi – A good number have enrolled on Level 1 courses.
Coleg Llandrillo Cymru – The numbers are alright for Access 1, 2 and Foundation courses.
Coleg Harlech WEA – Conwy and Denbighshire enrolments appear promising.
Popeth Cymraeg - 160 have enrolled on courses in Flintshire.
Coleg Meirion Dwyfor – Access courses are quite disappointing but the other levels are alright.
Bangor University – The numbers of beginners is about a third down but the other levels are fairly stable.

14. DATE OF THE NEXT MEETING

Wednesday afternoon, 14th January 2009 at 1.30pm, Madog room, Coleg Llandrillo Cymru, Rhos-on-Sea.